CYNGOR CYMUNED LLANYBYDDER

CYFARFOD 29 EBRILL 2025

1. Croeso’r Cadeirydd.

2. Yn bresennol:  K Jones, D Owen, M Morris, N Morris.

E-bost wedi'i dderbyn wrth Heulwen Jones yn mynegi ei dymuniad i ddod yn aelod o'n Cyngor.  Clerc i hysbysu ei bod wedi'i chyd-ethol gan yr holl Gynghorwyr a oedd yn bresennol yn ein cyfarfod.

E-bost wedi'i dderbyn wrth Mrs Indy Perrin.  Clerc i ymateb a gofyn ychydig o gwestiynau gan nad oeddem yn hollol siŵr am rai o'r cynnwys yn ei e-bost.

E-bost wedi'i dderbyn wrth T Gordon yn ein hysbysu am ei hymddiswyddiad o Gyngor Cymuned Llanybydder.  Clerc i gydnabod ei e-bost.

E-bost wedi'i dderbyn wrth ein Cadeirydd, C Wagner, yn ein hysbysu am ei ymddiswyddiad o Gyngor Cymuned Llanybydder.  Clerc i gydnabod ei e-bost.

Clerc I ddiweddaru'r Gwasanaethau Etholiadol cyn gynted ag y derbynnir ateb wrth Mrs I Perrin.

3. Budd Personol neu Ragfarnol.   -    Dim.

**4. COFNODION**

Nid oedd cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi'u cadarnhau fel rhai cywir.  Byddant yn cael eu trafod yn ein cyfarfod nesaf.

**5. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION:-**

Mai 2024 - 2.3 Marciau ar y Cwrt Tenis: Clerc i gysylltu â'r rhif ffôn y bydd D Owen yn ei darparu iddi.  Mike Dixon, Chwaraeon De Cymru 07867 988 898.

Mai 2024 - Lloches bws – Disgwyl am banel amnewid a glanhau.  Clerc i gysylltu â A B Jones eto i ofyn a ydyw wedi derbyn unrhyw ymateb gan y contractwr yn dilyn atgoffa gan ei Rheolwr Ardal.

Mai 2024 - 4.1 Conteinar – Bu trafodaeth am rai newidiadau posibl ynghlyn a maint y conteinar; i leihau'r maint o 20’ i 10’.  Oherwydd cynnwys e-bost ymddiswyddiad C Wagner, mae K Jones yn mynd i ofyn i'r Clwb Rygbi am gymorth ar gyfer storio dros dro pellach.  Clerc i gysylltu â Mark Jukes am y newid posibl ym maint y conteinar.

Ebrill 2025 - 5.1 Goleuadau'r toiled y tu allan – Toiled ar y pen pellaf. Mae'r mater dan sylw.

Ebrill 2025 - 5.2 Bonyn coeden Nadolig – Bydd y Cyngor yn monitro ei dynnu.

Ebrill 2025 - 5.3 Carw yn y parc – Derbyniwyd dyfynbris gan Gareth, Adventure Play, i dynnu'r carw, llenwi'r bwlch a thrwsio'r arwyneb am bris o £750.00 + TAW. Clerc i rhoi awdurdod i Gareth i wneud y gwaith hwn cyn gynted â phosibl, a gofyn iddo edrych ar y springer melyn gan fod bollt wedi dod allan.

Ebrill 2025 - 5.4 Paentio pyst gôl. Clerc i baratoi'r tendr.

**6. MATERION LLANYBYDDER**

6.1 Arwydd stryd a phalmant wedi'u difrodi – Danfon llythyr at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn iddynt drefnu atgyweirio'r arwydd (Sgwar Y Farchnad) a'r palmant a chafodd eu difrodi gan berson anhysbys.

6.8 Lampau tir yn y Gofeb – Derbyniwyd e-bost gan Tomos Evans. Nid yw un neu ddwy lamp yn gweithio. Clerc ofyn i T Evans brynu'r bylbiau.

6.10 Archwiliadau wythnosol maes chwarae – Nid oes unrhyw ymateb wedi dod o Gyngor Sir Gaer. Clerc i anfon atgofiad am y ffurflenni hyn ac i ymholi gyda Gareth.

6.12 Kay & James, Ramblers – Dywedodd Kay wrth y Clerc na allant fynychu'r cyfarfod nes y dyddiad 24/06/25.

6.15 Mr Garside – Mae D Owen i holi Cyngor Sir Caer eto, gan nad yw ymateb wedi dod.

6.16 Diwrnod VE – Mai 8fed, 2025 – Mae'r holl baratoi wedi mynd yn dda. Diolch mawr i T Gordon am yr holl waith paratoi a wnaeth, ac edrychwn ymlaen ei gweld ar y noson. Diolch mawr i Gary Evans am ei gymorth, gan ddarparu torch wedi'i rhoddi, silwét metel o 'Lone Tommy' i'w osod y tu ôl i'r lamp, ac wedi paratoi Brif Rhestr Digwyddiadau VE80 (MEL). Diolch mawr i Tania a Gary. Bydd yr Anrhydeddus Eileen Davies yn bresennol. Mae pawb yn edrych ymlaen at y digwyddiad ar 08/05/25.

**7. MATERION RHYDCYMERAU**

Dim.

**8. DEG TREF**

8.2 Sgrin ddigidol – Mwy wedi dod i law.

8.3 Murlun – Mae’r mater hwn yn dal i fynd yn ei flaen.

8.4 Grant o £2fil – Ar gael ar gyfer peintio ffasadau busnesau, ar agor i fusnesau lleol wneud cais. Bydd 3 grant arall yn dod.

**9. HYFFORDDIANT CYNGHORWYR A'R CLERC**

Mis nesaf, 20/05/25.

**10. GOHEBIAETH**

10.1 Stondinau marchnad – Derbyniwyd e-bost wrth Amy, Rural & West, yn nodi na fydd mwy o farchnadoedd yn Llanybydder. Oherwydd nifer o ffactorau, diffyg ymwelwyr wrth y Clwb Rygbi, a’r gwaith ailwampio’r maes parcio, nid oedd hi’n gallu cael gwerthwyr oedd yn barod i sefydlu mewn tref dawel.

10.2 Ebost wrth Jo Hobson ynghlyn a’r RNID sydd gerllaw ni yn Llanybydder. Clerc I ofyn iddi ddanfon posteri cyn gynted â phosibl.

**11. CYNLLUNIO**

PL/09206 – Newid defnydd arfaethedig o A1 i A3 safle bwyd tecawê – Llysfaen House, Bridge St, Llanybydder SA40 9XY.

Dim gwrthwynebiad i’r cais uchod.

PL/09040 – Derbyniwyd e-bost wrth Hugh Towns yn cadarnhau bod y cais hwn wedi'i gymeradwyo. Mae amod 4 y caniatâd yn nodi y dylid defnyddio'r cartref symudol arfaethedig yn gwbl gysylltiedig â defnydd preswyl Penllain ac na ddylai gael ei ddefnyddio fel annedd ar wahân.

**12. CYLLID**

Datganiadau banc

NatWest Bank Current A/c (20/03/25 – 12/04/25) – £36,194.86

Busnes Res A/c (18/01/25 – 17/04/25) – £4,573.54

**TALIADAU**

**ARCHEBION SEFYDLOG**

TALKTALK – 22/04/25, anfoneb £123.14.

BT – 7/04/25, anfoneb £48.57.

Mae'r Clerc wedi cysylltu â BT ddwywaith ac wedi derbyn dyddiad 24/04/25 ar gyfer y newid drosodd.

**RHAGAMCANIAD** – £23,333.34 wedi dod o Gyngor Sir Gaer.

**TALIADAU AR LEIN**

07/04/25 – Amazon, £18.91 (Lamp cyclon) Talwyd gan garden debyd.

07/04/25 – EDF, £255.45 (Trydan toiledau).

07/04/25 – C T Gordon, £31.99 (torch VE80) Talwyd gan T Gordon gan bod y cwmni ddim yn derbyn cardiau debyd).

07/04/25 – Dŵr Cymru, £145.08.

04/04/25 – VE80.COM, £35.90 (baner VE80).

14/04/25 – Defib Store, £83.96 (3 pecyn parod).

29/04/25 – M Y Beynon, £1,198.87 (cyflog 4/25).

29/04/25 – AMRC, £299.60 (treth 4/25).

01/05/25 – K Jones, £550 (anfoneb glanhau toiledau 4/25).

01/05/25 – M Y Beynon, £6.84 (batris lamp curfad).

01/05/25 – D Gregory, £50 (edrych ar ol ein gwefan 12 mis).

01/05/25 – Dinasyddion hyn Llanybydder, £500 (rhodd). S137

01/05/25 – Pwyllgor Pentref Llanybydder, £250 (rhodd). S137

**RHODDION**

Dinasyddion hyn Llanybydder – £500.00. S137

Pwyllgor Pentref Llanybydder – £250.00. S137

Rhoddiadau i'r diwrnod: S137 £750.00 S19 £0.00

**COMISIWN ELUSENNAU**

Oherwydd ymddiswyddiad T Gordon, M Morris yw'r Ymddiriedolwr newydd. Clerc i baratoi'r dogfennau angenrheidiol.

**ARCHWILYDD MEWNOL**

Cadarnhaodd S Hart FCCA o Gyfrifyddion LHP eu penodiad fel Archwilydd Mewnol sydd yn cynnwys eu Termau Cyfrifoldeb.

**AWDURDOD CYMRU**

Derbynwyd Ebost wrth Awdurdod Cymru yn rhoi barn cymwys ac na roedd unrhyw fater arall wedi dod i sylw a dim achos pryder ynghlyn a'r ddol blynyddol 31/03/24. Er hynny, nid roedd y gofynion perthnasol yn gyson â Datganiad Llywodraethiant y Cyngor. Ni chafodd tystiolaeth ei darparu nad oedd cyllideb wedi'i sefydlu yn unol â Phennod 1 o 2 adroddiad y Pwyllgor Cyffredinol a'r farn archwilio.

Nid oedd barn aildarchwilio wedi ei darparu. Am anghydsyniad bychan rhwng y Datganiad Cyfrif a'r llyfr arian; mae'r Clerc yn ymwybodol ohono, y bydd y Clerc yn esbonio ymhellach i'n Cyngor nawr ei bod hi'n gwybod mwy. Nid oedd unrhyw faterion eraill yr oeddent am eu tynnu i sylw'r Cyngor.

**CADEIRYDD, IS-GADEIRYDD A'R CYFARFOD BLYNYDDOL (o'r blaen CBC).**

Wedi'i ohirio tan y mis nesaf.

**UNRHYW FUSNES ARALL - Dim.**

Daeth y cyfarfod i ben 9:20yh.

BYDD EIN CYFARFOD NESAF YN CAEL EI GYNNAL YN FESTRI CAPEL ABERDUAR

NOS FAWRTH MAI 20 2025 AM 7:00yh.